

GREEN GEN CYMRU

# AROLYGON AMGYLCHEDDOL A PHEIRIANYDDOL.

**Mae Green GEN Cymru (Green Generation Energy Networks Cymru), yn rhan o grŵp Ynni Windward. Rydym yn datblygu rhwydwaith trydan adnewyddadwy cryfach, mwy gwydn sydd ei angen yn fawr yng Nghymru – gan ddosbarthu ynni glân, gwyrdd.**

Wrth gynllunio ein prosiectau, mae angen i ni gynnal nifer o arolygon i helpu i lywio'r gwaith o ddylunio'r cynllun a'r Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynigion a deall y camau lliniaru posibl sydd eu hangen, mae angen i ni arolygu ardal eang.

Mae'r arolygon hyn yn cynnwys daeareg, ecoleg, a defnydd tir. Os byddwn yn gofyn am wneud arolygon ar eich tir, nid yw o reidrwydd yn golygu ein bod yn cynllunio seilwaith ar y tir.

Mae'n bosibl y bydd angen cynnal arolygon am resymau amgylcheddol, ecolegol, archeolegol a pheirianneg; bydd y rhan fwyaf ohonynt yn *anymwthiol* (cerdded drosto), ond ar gyfer rhai arolygon *ymwthiol* mae'n bosibl y bydd angen drilio tyllau twrio, neu gloddio pyllau prawf.

Dim ond ar adeg benodol o'r flwyddyn y gellir cynnal rhai arolygon ecolegol, neu gyda'r nos, pan fydd rhai rhywogaethau (fel ystlumod a madfallod) yn fwy prysur.

## 1. Perchnogion Tir a Deiliaid

Rydym yn gweithio'n agos gyda pherchnogion tir a deiliaid i sicrhau bod arolygon yn cael eu cynnal, lle bynnag y bo modd, ar adegau priodol, gyda chyn lleied o anghyfleustra â phosibl.

Rydym yn gweithio'n gynnar i sicrhau cytundeb mynediad gwirfoddol gyda'r perchennog/deiliad lle bynnag y gallwn, ac fel arfer rydym yn cyflwyno Holiadur Budd Tir (LIQ) yr un pryd, i'n helpu i nodi pob parti sydd â budd cyfreithiol yn y tir.

Rydym bob amser yn trafod gweithdrefnau a llwybrau ar gyfer arolygon gyda'r perchennog tir neu'r deiliad cyn cael mynediad i'r tir. Fel arfer, byddwn yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd ymlaen llaw ac yn darparu manylion o'r math o arolwg, yr ardal y bydd yn ei chynnwys a'r contractwr a fydd yn ei gynnal.

Ynghyd â'n hymgynghorwyr a'n contractwyr byddwn yn gyfrifol am ein diogelwch ein hunain wrth gynnal arolygon, ond gofynnwn i berchnogion a deiliaid roi gwybod i ni os ydynt yn credu bod unrhyw nodweddion neu sylweddau a allai fod yn beryglus yn bresennol.

# 2. Taliadau am Arolygon a Gwaith Ymchwiliol

Nid yw'r symiau isod yn daliadau am ganiatáu hawliau mynediad, ond yn iawndal ymlaen llaw am ddifrod ac aflonyddwch posibl yn sgil yr arolwg a'r gwaith ymchwilio.

**Byddwn yn gwneud y taliadau iawndal canlynol ymlaen llaw:**

### AROLYGON ANYMWTHIOL

| Fesul Daliad Tir | Cyfradd |
|---|---|
| Fesul cyfnod o 12 mis | £500 |
| Os oes angen ymweliadau yn y nos (21:00 - 06:00) **£250** ychwanegol am hyd at 6 noson fesul daliad tir. | |

### TWLL TWRIO

| Twll twrio | Cyfradd |
|---|---|
| Fesul Twll twrio. | £350 |

### PYLLAU PRAWF

| Pwll Prawf | Cyfradd |
|---|---|
| Fesul Pwll Prawf. | £350 |

### OFFER MONITRO DŴR

| Mesurydd | Cyfradd |
|---|---|
| Fesul Mesurydd fesul cyfnod o 12 mis i gynnwys unrhyw ymweliadau safle. | £150 |

Mae iawndal sy'n uwch na'r ffigurau uchod i'w gytuno ar sail unigol yn sgil dangos tystiolaeth a phrawf o golled.

### FFI ARWYDDO TRWYDDED AROLWG

| Ffi untro | |
|---|---|
| Yn ogystal â hyn, bydd ffi arwyddo trwydded untro yn cael ei wneud os caiff y drwydded ei harwyddo o fewn dau fis i'w chyflwyno. | £250 |

# 3. Talu Ffioedd Proffesiynol

Rydym hefyd yn talu ffioedd proffesiynol rhesymol fel y manylir isod am gyngor a chymorth mewn cysylltiad â llunio'r Holiadur Budd Tir a'r drwydded mynediad arolwg gwirfoddol.

### FFIOEDD PROFFESIYNOL

Ffi sefydlog o **£250** fesul daliad tir mewn cysylltiad ag arolwg a gwaith ymchwilio.

Ffi sefydlog o **£150** fesul Person sydd â Budd yn y Tir er mwyn helpu i gwblhau'r Holiadur Gwybodaeth Perchennog Tir (LIQ).

